BETH A ELLIR EI GOMPOSTIO?

Dylai cymysgfa 50/50 o ddeunyddiau GWYRDD a BROWN ddarparu bin diffwdan. Ond cofiwch ddefnyddio amrywiaeth eang o gynhwysion er mwyn cael y compost gorau.

GWYRDD ?

O'r Ardd

***Hen Flodau**
***Toriadau Meddal**
***Gwair** - peidiwch ag ychwanegu mewn un haen dew, gwell ei ychwanegu gyda deunyddiau brown fel dail, toriadau o wrychoedd neu gardbord.
***Chwyn -** ond nid chwyn sy'n hadu ac osgowch chwyn dinistriol fel taglys, onnen y ddaear a dail tafol.
***Danadl Poethion -** ond nid y gwreiddiau.
***Gwastraff Llysiau -** mae cnydau brasica yn blanhigion gwydn ac efallai bydd angen eu torri a'u rhwygo.
Gall hen datws flaguro yn eich bin !
***Pennau blodau meirwon.**

O'r Gegin

***Croen a Chalonnau Ffrwythau**
***Croen Llysiau**
*** Bagiau Te a Gwaddodion Coffi**
Mae'n syniad da casglu gwastraff o'r gegin mewn bwced bach gyda chaead, er mwyn osgoi cerdded yn ôl ac ymlaen i'r bin compost.

Ffynonellau gwyrdd eraill

***Gwrtaith -** gofynnwch i ffermwr lleol ond peidiwch â defnyddio gormod.
***Gwellt Gwely -** dim ond gan anifeiliaid llysieuol h.y. cwningod a moch cwta.
***Gwymon -** os yw ar gael ac nid oes gennych ddigon o ddeunyddiau gwyrdd.

BROWN?

O'r Ardd

***Brigau -** byddent yn compostio'n well os ydynt wedi cael eu rhwygo'n gyntaf.
***Dail Wedi Cwympo -** cymysgwch gyda gwair i gompostio'n gyflymach. Neu eu compostio'n unigol i wneud deilbridd.
***Rhisgl, Pren wedi'i Rwygo/Llwch llif**
***Llwyni Coediog/Gwydn**
***Toriadau o Wrychoedd**
***Gwellt**

O'r Cartref

***Amlenni -** heb y ffenestri.
* **Papur wedi'i Grensian -** defnyddiwch bapur nad yw'n addas ar gyfer banciau papur ac ailgylchu o ymyl palmant.
***Lludw Pren**
***Cardbord -** h.y. rholiau toiled/cegin, pacedi grawnfwyd brecwast.
***Toriadau Gwallt ac Ewinedd**
***Plisg Wy -** wedi'u malu'n fan.